# Y Ferch Ryfeddol,

NEU HANES

# SARAH JACOB

## LLETHR-NEUADD,

## Yn agos i Bencader,

SWYDD GAERFYRDDIN,

A anwyd y 17eg o Fai, 1857, ond nid ydyw wedi profi un math o fwyd, gwlyb na sych, oddiar y 10fed o Hydref, 1867, sef 19 mis.

---

## GAN HUGH ROBERTS,

(PERERIN MON.)

---

Holl Gymry De a Gogledd,
Yn fwynaidd dewch ynghyd,
Cewch hanes gwrthddrych hynod,
Mae'r geiriau'n wir i gyd,
Sef hanes Sarah Jacob,
O sir Gaerfyrddin fad,
Mae hon yn gwir ragori
Ar ferched tref a gwlad.

Mae'n gwybod yr ysgrythyr
Cyn bod yn ddeuddeg oed,
Llenyddiaeth a barddoniaeth,
Ni fu ei bath erioed :

Mae hon yn wrthddrych sylw
  Gan bawb o ddynol ryw,
Trwy drefn ddoeth Rhagluniaeth
  Fe'i gwelir heddyw'n fyw.

Ni phrofodd fwyd na diod,
  Na lluniaeth o un lle
O'r degfed dydd o Hydref,
  Ond byw trwy ras y ne',
Un fil wyth cant a thrigain,
  Ac hefyd saith yn llawn,
Ond ar ei gwely cystudd
  Foreuddydd a phrydnawn.

Dechreuad ei hafiechyd
  Oedd dyfod adre'n glaf
O'r ysgol un diwrnod
  Tanbeidiol yn yr haf,
Tri mis bu yno'n gorwedd,
  Heb deimlo un llesâd,
Er ymdrech y meddygon
  A'i thyner fam a'i thad.

Hi gysgodd fis yn gyflawn,
  Heb ddeffro dim un waith,
A'i hyspryd gym'rwyd ymaith
  Trwy'r eangderau maith;
Hi welodd ryfeddodau
  Trwy ryngu bodd ei Duw,
Ond megys breuddwyd ydoedd,
  Ac eto'i chorff yn fyw.

Mynegodd, do ugeiniau
  O ryfeddodau maith,
A welodd yn y nefoedd,
  Ac hefyd ar ei thaith;
Hi welodd bererinion
  A'u gynau gwynion glân,

505

Achubodd Duw trwy gariad
  Rhag myn'd i uffern dân.

Rhyfeddod ydyw gweled
  Yr eneth hon yn fyw,
Ond beth sy'n fwy rhyfeddod
  Na dyfnion droion Duw?
Rhyfeddod fydd i Sarah
  Gael dysgu'r nefol gân,
'Nol gadael byd o gystudd,
  A'i gwisg yn wyn a glân.

Mae'i llais yn gryf ac eglur,
  A'i gruddiau'n hynod hardd,
Fel lili'n mysg mieri,
  Neu rosyn yn yr ardd;
A'i hoffder ydyw gweddi,
  Neu ddarllen mewn rhyw fan,
Ond nis gall droi'r dalenau,
  Mae'i breichiau bach ry wan.

A chwithau blant 'r ysgolion
  Sabathol trwy'r holl wlad,
Gwrandewch ar eich athrawon,
  A'ch tyner fam a'ch tad;
A dysgwch oll eich gwersi
  Tra byddoch yma'n iach,
Ac hefyd yr ysgrythyr
  Fel dysgodd Sarah fach.

A chwithau ie'nctyd Cymru
  Gwrandewch ar hyn o gân,
Trysorwch hi'n eich meddwl,
  Gwnaiff les yn ddiwahan;
A chofiwch eich Creawdwr
  Cyn daw y dyddiau blin,
Gan gofio Sarah Jacob
  Sy'n destun i bob dyn.

A chwithau yr henafgwyr
Sydd oll a'ch gwallt yn wyn,
O cofiwch am yr aberth
Fu ar Galfaria fryn;
Mae ganddo falm o Gilead
I wneyd y claf yn iach,
Fel mae â'i ofal tadol
Yn nghystudd Sarah fach.

Ffarwel yn awr, gyfeillion,
Yn fawrion ac yn fân,
'Rwyf wedi troi yr hanes
Yn gywir oll ar gân;
Ond 'nawr 'rwy'n rhoddi i chwi
Ddau benill ola'r gwaith
A wnaed gan Sarah Jacob
Pan yn ei chystudd maith :—

## AR FARWOLAETH MERCH FECHAN

'Aeth geneth fechan adref,
Mae heddyw gydag Ef,
Yn awr yn canu'n beraidd
Ar delyn aur y nef;
Ac er mor anwyl ydoedd
Gan ei rhieni cun,
Anfonodd Crist am dani
Yn berlyn iddo'i hun.

Gadawodd fyd o ofid,
A'i demtesiynau 'gyd,
Gadawodd holl helyntion
Trafferthus hyn o fyd;
Mae 'nawr o gylch yr orsedd,
Yn nghwmni Iesu glân,
A thelyn yn ei dwylaw,
Yn chware'r nefol gân.'